

6 mis o ddawnsio yn 2025!



dawns**i**bawb

Yn 2023, derbyniodd Dawns i Bawb y newyddion cyffrous ein bod wedi llwyddo yn ein cais i aros fel Aelod Portffolio o Gyngor Celfyddydau Cymru. Byddai hyn yn ein galluogi i ffurfio cytundeb gyda CCC i dderbyn grant refeniw a fyddai'n ein galluogi i barhau â'n Rhaglen Ddawns Gymunedol. Fel rhan o'r cytundeb hwn, rydym wedi datblygu nifer o dargedau yr ydym yn anelu at eu cyflawni mewn perthynas â blaenoriaethau CCC sef **Creadigrwydd, Ehangu Ymgysylltu, yr Iaith Gymraeg, Cyfiawnder Hinsawdd, Meithrin Talent, a Thrawsnewid.**

Fel rhan o'n Cynllun Busnes 2024-2027, mae Dawns i Bawb wedi creu '5 llinyn o Ddawns Gymunedol.' Mae'r 5 llinyn hyn yn llywio ein holl gynllunio artistig a strategol ac yn ein galluogi i barhau i sicrhau ein bod yn datblygu Rhaglen Ddawns Gymunedol sy'n cynnig gweithgareddau dawns i bawb. Mae'r 5 llinyn hefyd yn gweithio mewn ymateb i flaenoriaethau CCC gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwaith gorau fel aelod o Bortffolio'r Celfyddydau. 5 llinyn o Ddawns Gymunedol Dawns i Bawb yw:

- Dawns a Chydlyniant Cymunedol**
- Dawns & Addysg**
- Dawns ar gyfer Iechyd a Lles**
- Dawns a'r Iaith Gymraeg**
- Datblygiad Artistig a Strategol**



Wrth i ni gyrraedd hanner fordd drwy ein hail flwyddyn ar y Portffolio , hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i rannu'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn ystod 2025 a'r cynlluniau cyffrous sydd ar y gweill ar gyfer 2026:



Creadigrwydd

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi cynnal sesiynau rheolaidd sydd wedi'u datblygu mewn ymateb i'n 5 llinyn. Mae llawer o'r rhain wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â sefydliadau cymunedol eraill ac maent yn cynnwys:

Dawnsyr Dre – sesiynau wythnosol i blant a phobl ifanc yn cynnwys grŵp newydd yn benodol i blant gydag anghenion ychwanegol **(Dawns a Chydlyniant Cymunedol, Dawns a'r Iaith Gymraeg)**

Llwybrau – grŵp perfformio gyda sesiynau wythnosol i oedolion anabl mewn partneriaeth a Llwybrau Llesiant **(Dawns a Chydlyniant Cymunedol, Dawns a'r Iaith Gymraeg, Dawns ar gyfer lechyd a Lles)**

Clwb Seiont – sesiynau i bobl hyn mewn partneriaeth a Porthi Dre (hwb cymunedol) **(Dawns a Chydlyniant Cymunedol, Dawns a'r Iaith Gymraeg, Dawns ar gyfer lechyd a Lles)**

Mencap Mon – sesiynau wythnosol i oedolion anabl a'u teuluoedd/gofalwyr mewn partneriaeth a Mencap Mon **(Dawns a Chydlyniant Cymunedol, Dawns a'r Iaith Gymraeg)**

Rhaglen Ddawns i Gartrefi – darparu rhaglen helaeth o sesiynau dawns i gartrefi gofal ar draws Gogledd Orllewin Cymru, gan gynnwys ysbytai sy'n canolbwyntio ar bobl oedrannus a Dementia **(Dawns a Chydlyniant Cymunedol, Dawns a'r Iaith Gymraeg, Dawns ar gyfer lechyd a Lles)**

Dawns mewn Addysg – gweithio'n rheolaidd gydag ysgolion ar draws Gogledd Orllewin Cymru i gyflwyno dawns fel rhan o'r Celfyddydau Mynegiannol ar y Cwricwlwm i Gymru **(Dawns mewn Addysg, Dawns a'r Iaith Gymraeg, Dawns ar gyfer lechyd a Lles)**

Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau lleol sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd gyda statws ffoadur i gynnig profiadau dawns a theatr **(Dawns a Chydlyniant Cymunedol)**

Gweithio mewn partneriaeth â Ballet Cymru i ddarparu rhaglen DUETS sy'n cynnig profiadau ballet i blant sy'n wynebu rhywstrau wrth gael mynediad at y celfyddydau **(Dawns ac Addysg, Datblygiad Artistig)**

Ym mis Rhagfyr 2025, bydd cynhyrchiad dawns gymunedol flynyddol Dawns i Bawb, 'Taith yr Eira' yn cael ei gynnal yn Galeri a bydd yn cynnwys holl gyfranogwyr ein Rhaglen Ddawns Gymunedol o 4-90+ oed.



Ehangu Ymgysylltiad

Rydym yn falch o wedi cael gwahoddiad gan Gwmni Dawns WISP i gydweithio ar ddatblygiad o'r Wyl 'Ni'n Dawnsio Hefyd' a gynhaliwyd yn Pontio Bangor ym mis Gorffennaf 2025. Dyma oedd yr ŵyl ddawns gynhwysol gyntaf yng Nghymru a chreodd Llwybrau a Mencap Môn waith i'w berfformio. Derbyniodd staff Dawns i Bawb hyfforddiant hefyd ar gynnwys disgrifiad sain o fewn coreograffi.

Ar ôl llwyddiant Strictly Gwynedd a Môn yn 2024, bydd Dawns i Bawb yn cyd-weithio gyda Mencap Môn, Llwybrau Llesiant, Stand NW a Conwy Connect i gynnal 'Dawnsio Gogledd Cymru' yn 2025. Bydd dawnswyr anabl o 4 sir dros Ogledd Cymru yn dod at ei gilydd mewn digwydd ar sail Strictly Come Dancing. Dros y misoedd diwethaf mae tîm DiB wedi bod yn gweithio gydag aelodau i ddysgu nifer o arddulliau dawns ac yn dod at ei gilydd yn Venue Cymru ym mis Tachwedd i berfformio mewn digwyddiad mawr sy'n dathlu cynhwysiant, talent a sgiliau dawns. Cadwch lygad allan am rhai o wynebau enwog ar y panel beirniadu!

Yn 2025 rydym yn edrych ymlaen at gyd-weithio gyda nifer o bartneriaid i greu rhwydwaith o hybiau dawns gymunedol. Bydd yr hybiau hyn yn ein galluogi i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu gweithgaredd dawns a all wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl gan gynnwys pobl sy'n byw gyda Dementia, gofalwyr ifanc, teuluoedd, pobl ifanc a ffoaduriaid.

Rydym yn falch i dderbyn grant Diwylliesiant gan Gyngor Gwynedd i weithio mewn partneriaeth a Chwmni Pen Productions a cherddor lleol Ellie Davies i greu perfformiad newydd i deithio cartrefi gofal, ysbytai a llyfrgelloedd dros Wunedd.

Rydym wedi cyd-weithio gyda Rural Dance Touring Initiative, Creu Cymru a Chanolfan Ucheldre a ddod a Ddawns Cyfoes proffesiynol i gymunedau Gogledd Cymru a ddatblygu cynlleidfaoedd newydd ar gyfer dawns gyda grwpiau cymunedol sy'n wynebu rhwystrau mewn cael mynediad i'r celfyddydau. Bydd 2 berfformiad cyffrous yn dod i Ucheldre ym mis Tachwedd a Rhagfyr.



Yr Iaith Gymraeg

Eleni byddwn yn gweithio gyda phartneriaid strategol i greu cynllun strategol hir dymor i gefnogi ac uwchsgilio ymarferwyr dawns iaith Gymraeg. Bydd hyn yn ein galluogi i gydnabod ein heriau parhaus o ran dod o hyd ymarferwyr i gyflawni ein gwaith, cynnig y cyfle i ehangu ein gweithle a chefnogi ymarferwyr lleol i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg neu ddysgu'r iaith.



Cyfiawnder Hinsawdd

Credwn yn gryf yn ein rolau a'n cyfrifoldeb i wneud ein byd yn lle gwell felly rydym wedi ymrwymo ein hunain i dargedau a fydd yn ein galluogi i chwarae ein rhan. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'n Bwrdd i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Hinsawdd ac yn y cyfamser, rydym wedi cymryd camau i wneud newidiadau cadarnhaol.

Ar ddechrau'r flwyddyn fe wnaethon ni ganslo ein contract llungopiwr. Fe wnaethom ni roi'r targed i ni ein hunain o dorri ein defnydd o bapur 95% erbyn diwedd y flwyddyn ac rydym wedi cyflawni'r targed hwn. Mae ein holl waith gweinyddol gan gynnwys anfonebau, contractau, biliau, slipiau cyflog a chyfathrebu bellach yn electronig.

Ni fyddwn bellach yn cyhoeddi copïau papur o'n rhaglenni cynhyrchu ond byddwn yn creu copïau digidol y gellir eu cyrchu trwy ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd ein gwisgoedd a'n propiau i gyd yn dod o ffynonellau moesegol cymaint â phosib – naill ai drwy gael eu gwneud, eu hailgylchu neu eu rhoi yn lleol.

Meithrin Talent

Rydym wedi parhau i gyflogi 2 aelod o staff anabl a oedd wedi wynebu rhwystrau cyn hynny wrth fynd i mewn i'r gweithle.

Eleni rydym wedi datblygu cyfleoedd hyfforddi dawns a pherfformio ar gyfer dawnsywyr anabl.

Rydym yn gyffrous i allu cynnig cynllun interniaeth a thal ar gyfer artist dawns leol a hoffai ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth Dawns Gymunedol. Mae'r cynllun hwn yn cynnig cyfle datblygiad proffesiynol i artistiaid symudiad ddatblygu eu sgiliau hwyluso wrth arwain sesiynau dawns gyda gwahanol grwpiau o bobl a'r cyfle am gyfleoedd cyflogaeth gyda Dawns i Bawb.

Trawsnewid

Bydd y flwyddyn nesaf yn flwyddyn fawr i Dawns i Bawb ac mae'r cynlluniau ar waith. Am y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn cynllunio model busnes newydd a fydd yn gweld datblygiad o rwydwaith o ganolfannau Dawns Gymunedol yng Ngogledd Orllewin Cymru. I ddechrau, byddwn yn symud allan o'n prif swyddfa yn Galeri ac i mewn i ddau hwb cymunedol sydd eisoes yn bodoli i ddatblygu rhaglen ddawns gymunedol a fydd yn gweithredu ochr yn ochr â'n gwaith cymunedol presennol.

Bydd yr hybiau'n ein galluogi i ddatblygu partneriaethau newydd i dyfu ein rhaglen ddawns gyda ffocws ar iechyd, lles a chydlynant cymunedol, bod yn fwy integredig o fewn ein cymunedau a chynnig mwy o gefnogaeth a chyfleoedd proffesiynol i artistiaid lleol sydd â diddordeb mewn gwaith cymunedol. Fel rhan o'r trawsnewid byddwn yn hysbysebu dwy swydd newydd sef Cydlynwyr Hwb Dawns Gymunedol a fydd yn chwarae rhan hanfodol yn natblygiad yr hybiau dawns.

Os hoffech ddysgu mwy am Dawns i Bawb gallwch ein dilyn ar Facebook ac Instagram neu gysylltu i drefnu paned a sgwrs!

